## Canllawiau bodloni meini prawf i gyrraedd Gradd O

### Y Cefndir

Mae gradd newydd (Gradd O) wedi ei chyflwyno i strwythur cyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) o 1 Ebrill 2016 ymlaen. Mae hon yn radd leol, wedi'i gosod yn uwch nag uchafswm graddau cenedlaethol NJC, ond bydd dal yn gysylltiedig â graddfa gyflog NJC at ddibenion codiadau cyflog. Pwrpas y radd hon yw pontio'r bwlch sylweddol oedd yn bodoli o'r blaen rhwng graddau NJC a JNC. Hefyd mae'n rhoi fframwaith strwythuredig lle gellir dyrannu dyletswyddau ychwanegol sylweddol i staff sydd ar frig gradd N, ond o'r blaen nid oedd modd eu talu amdanynt.

Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth i'r arweinyddiaeth sydd ei hangen wrth ystyried y swydd gradd O bosibl. I'r perwyl hwn, bydd disgwyliadau arweinyddiaeth Fframwaith Cymhwysedd yr Awdurdod yn cael eu hystyried.

Rhan o'r rhesymeg dros greu gradd O yw'r gostyngiad yn nifer Penaethiaid Gwasanaeth yr Awdurdod a/neu uno portffolios Penaethiaid Gwasanaeth, lle cyfunir dyletswyddau dau Bennaeth Gwasanaeth. Felly, mae creu gradd O yn rhoi mwy o hyblygrwydd o ran gallu'r Awdurdod i ddyrannu cyfrifoldebau. Mae llunio gradd O yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at ail-greu'r fframwaith blaenorol oedd gan yr Awdurdod hyd at 2009, lle'r oedd ganddo swyddi cydnabyddedig Pennaeth 1, Pennaeth 2 a Phennaeth 3.

### Y Broses

**Cyn unrhyw ystyriaeth (proses werthuso) <u>rhaid</u> i'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth gynnal trafodaethau cychwynnol gyda'r Prif Weithredwr a'r Prif Weithredwr Cynorthwyol, fel bod disgwyliadau'n cael eu rheoli cyn cymeradwyo a chyflwyno'n ffurfiol i'r broses Gwerthuso Swyddi.**

- Mae'r meini prawf ar gyfer swydd sy'n cyrraedd Gradd O fel a ganlyn. Yn ogystal â sgorio 765 pwynt neu uwch, rhaid i'r rôl gael dylanwad corfforaethol a/neu effaith ledled y sir ar nifer fawr o bobl.

  Hefyd rhaid ystyried y ffactorau isod:

- Rhaid i'r tîm gwerthuso swyddi werthuso'r swydd o dan gynllun gwerthuso swyddi'r GLPC a rhaid cyrraedd o leiaf 765 pwynt.

- Mae'r rôl yn ymgymryd â dyletswyddau arweinyddiaeth ar lefel uchel o fewn y gwasanaeth, ac nid yw'r Prif Swyddog yn ymgymryd â'r swyddogaethau e.e. lle nad oes Pennaeth Gwasanaeth, ac mae'r unigolyn yn adrodd i'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr neu'r Prif Weithredwr Cynorthwyol, neu lle mae'r dyletswyddau wedi'u dirprwyo gan Brif Swyddog.

- Disgwylir i ddeiliad y swydd gynghori'r Cyngor ar faterion cymhleth lefel uchel, sydd â goblygiadau mawr i'r Cyngor, neu sydd ag angen cyfrifoldeb i weithredu ar ran y Cyngor a allai ymrwymo'r Awdurdod i weithrediad sy'n cynnwys effaith sylweddol ar adnoddau.

- Bydd gan ddeiliad y swydd gyfrifoldeb parhaus dros adolygu arferion a darpariaeth gwasanaeth polisi pwysig sy'n effeithio ar y Cyngor cyfan.

- Mae'r rôl yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithiwr wneud penderfyniadau ar ran yr Awdurdod.

- Ysgwyddir cyfrifoldeb statudol.

- Swydd a ariennir ar y cyd ar gyfer dau neu fwy o sefydliadau.

- Swydd gydag effaith strategol ar lefel uwch ar draws sefydliadau partner.

- Mae'r rôl yn cyflawni lefel 'Arweiniol' fframwaith cymwyseddau'r Awdurdod, gyda deiliad y swydd yn cefnogi datblygiad diwylliant o arloesi a dysgu, bod yn agored, gwerthfawrogi ac ymddiriedaeth, gan ganolbwyntio ar anghenion y cwsmer. Byddant yn atebol ac yn esiampl dda o safonau ymddygiad rhagorol. Byddant yn darparu cyfeiriad clir wrth weithio'n strategol ar draws ffiniau ac yn cynrychioli ein sefydliad yn seiliedig ar ein gwerthoedd.

- Yn unol â Pholisi Tâl yr Awdurdod, bydd yn rhaid i werthusiadau ar gyfer unrhyw radd O gael cymeradwyaeth ffurfiol gan y Prif Weithredwr a'r Prif Weithredwr Cynorthwyol. Bydd y gymeradwyaeth hon ar ffurf Profforma Gwerthuso a bydd angen llofnodion y Prif Weithredwr a'r Prif Weithredwr Cynorthwyol.